



**ADRODDIAD GAN Y  
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE  
REPORT**

## **Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) (Diwygio) 2007**

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) 2000, o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### **Rheol Sefydlog 11.7**

Yn y diffiniad o "y Prif Weinidog" yn rheoliad 1(3) a 3, defnyddir y gair "etholir" yn y testun Cymraeg, tra bo'r testun Saesneg yn defnyddio'r gair "appointed". Mae darpariaeth Deddf Llywodraeth Cymru y cyfeirir ati yn ei gwneud yn amlwg mai'r testun Saesneg sy'n gywir, ac felly dylid defnyddio'r gair "benodir" yn hytrach na'r gair "etholir" yn y testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 11.7(v) a (vi)]

Yn y diffiniad o "relevant children" yn nhestun Saesneg rheoliad 1(3), defnyddir yr ymadrodd "in such manner" yn y cyflwyniad. Yn y diffiniad Cymraeg cyfatebol, sef "plant perthnasol", mae'n briodol bod yr ymadrodd hwn wedi ei gynnwys ar wahân yn y ddau is-baragraff sy'n dilyn. Fodd bynnag, yn y cyntaf defnyddir "yn y fath fodd a chan y fath fodd" tra mai dim ond "yn y fath fodd" a ddefnyddir yn yr ail. Gan mai dim ond unwaith y defnyddir yr ymadrodd yn y testun Saesneg, mae'n bwysig defnyddio'r un ymadrodd yn y testun Cymraeg pan gaiff ei ailadrodd. Byddai "Yn y fath fodd" yn ddigon yn y ddau is-baragraff. [Rheol Sefydlog 11.7(v) a (vi)]

Yn y testun Saesneg, mae rheoliad 5 a roddir yn lle'r rheoliad 3(1)(c) newydd yn cyfeirio at "mental ... infirmity", tra bo'r ddarpariaeth gyfatebol yn y testun Cymraeg yn cyfeirio at "gwendid

meddygol". [Rheol Sefydlog 11.7(v) a (vi)]

Mân wallau drafftio neu deipograffyddol yw'r rhain sy'n addas i'w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**20 Mawrth 2007**